



4.0 Gwirfoddolwyr

Cynnwys Gwirfoddolwyr Ifanc

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Pobl dan 18 oed
3. Diogelu
4. Gwirfoddolwyr Ifanc a Budd-daliadau
5. Syniadau ar gyfer cynnwys pobl ifanc
6. Recriwtio pobl ifanc
7. Cadw Pobl Ifanc fel Gwirfoddolwyr
8. Modiwl E-Ddysgu
9. Deunydd darllen ac adnoddau eraill

Diben y daflen wybodaeth hon yw eich helpu i ddeall sut i **gynnwys pobl ifanc 14-25 mlwydd oed** mwy fel gwirfoddolwyr ac i oresgyn rhwystrau a all atal pobl ifanc rhag gwirfoddoli.

Cyflwyniad

Pam cynnwys pobl ifanc felly?

Gall cynnwys pobl ifanc o dan 18 oed fod yn ddigon i godi ofn ar rai mudiadau ond gall y manteision i'r mudiadau, y bobl ifanc a'r gymuned ehangach fod yn hynod o werth chweil gan ddod ag elfen ychwanegol a phrofiad newydd i wirfoddoli. Mae gwirfoddoli yn galluogi pobl ifanc i deimlo'n rhan o'u cymuned a theimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn fwy.

Manteision i bobl ifanc:

- Datblygu sgiliau cymdeithasol
- Dymchwel rhwystrau rhwng cenedlaethau
- Cael hwyl!
- Mynediad at y farchnad swyddi
- Teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a magu hyder
- Ennill cymwysterau
- Profiad gwaith
- Cyfrannu at achos agos at eu calon
- Cyfle i gael geirda

Manteision i fudiadau:

- Syniadau a brwdfrydedd newydd
- Gonestrwydd (adborth)
- Amrywiaeth
- Cyllid
- Y gallu i uniaethu â chleientiaid
- Mynediad at wahanol rwydweithiau
- Y nhw yw gwirfoddolwyr hŷn y dyfodol ac efallai y byddant yn dychwelyd pan fyddant yn hŷn os cawsant brofiad da gyda'r mudiad

Pobl dan 18 oed

Ceir isod rai canllawiau ac adnoddau a argymhellir i'ch helpu i gynnwys pobl ifanc yn eich gweithgareddau:

A all pobl ifanc dan 18 wirfoddoli?

Yr ateb byr, syml yw y gallant. Nid oes cyfyngiadau cyfreithiol o safbwynt gwirfoddoli ac oedran. Yr ystyriaethau, gan amlaf, yw pa rolau sy'n addas ac ochr ymarferol hyn. Argymhellir eich bod yn trafod unrhyw ymrwymiadau eraill sydd gan pobl ifanc, megis pwysau addysg a chyflogaeth, wrth ystyried faint o amser a roddant i wirfoddoli.

Iechyd a Diogelwch

Pan fyddwch yn cynnwys pobl ifanc dan 18 yn eich gweithgareddau mae gennych '**Ddyletswydd Gofal**' tuag atynt. Mae angen i asesiadau risg ystyried y lefel aeddfedrwydd a pheidio â chymryd yn ganiataol y bydd yr un fath â gwirfoddolwr hŷn. Dan y **Gyfraith Cyflogaeth** rhaid cynnal asesiadau risg unigol i gyflogeion ifanc ac er nad yw hyn yn ofynnol i wirfoddolwyr fe'ch cynghorir i'w cynnal gan ei fod yn eich galluogi i ystyried lefel dealltwriaeth ac aeddfedrwydd pob gwirfoddolwr. Da o beth hefyd fyddai archwilio unrhyw is-ddeddfau yn eich ardal, gan fod rhai awdurdodau lleol yn mynnu bod siopau elusen yn gwneud cais am drwyddedau cyflogi plant.

Nid yw nifer yr oriau y gall plentyn eu gweithio mewn wythnos yn berthnasol i wirfoddoli ac mewn nifer o achosion mae pobl ifanc yn gwirfoddoli yn eu hamser rhydd, sef gyda'r nos ac ar y penwythnos megis cynorthwyo mewn clybiau ieuenctid a gynhelir ar ôl 7 yr hwyr.

Er gwybodaeth:

Mae'r **Rheoliadau Amser Gwaith (1998)** yn gweithredu'r **Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd** yng nghyfraith Prydain. Mae hawliau gweithwyr ifanc; y rheini dros yr oedran gadael ysgol isaf ond dan 18 mlwydd oed, a'r rheini dan yr oedran gadael ysgol isaf ar gynlluniau profiad gwaith cymeradwy yn gwahaniaethu yn y ffyrdd canlynol:

- Cyfyngiad o wyth awr o amser gwaith y dydd a 40 awr yr wythnos (onid oes amgylchiadau arbennig);
- Dim gwaith rhwng 10pm a 6am na rhwng 11pm a 7am (ac eithrio dan amgylchiadau penodol);
- 12 awr o orffwys rhwng pob diwrnod gwaith;
- Dau ddiwrnod o orffwys yr wythnos a 30 munud o orffwys yn y gwaith pan fyddant yn gweithio am fwy na phedair awr a hanner.

Yswiriant

Bydd rhai mudiadau'n canfod bod gan eu hyswiriant cyfredol ar gyfer gwirfoddolwyr isafswm oedran o 18. Os felly, cysylltwch â'r cwmni a gofyn i'r oedran gael ei ostwng.

Dylai gwirfoddolwyr gael eu hyswiro naill ai dan warchodaeth **Atebolrwydd Cyflogwyr** neu **Atebolrwydd Cyhoeddus** a dylai'r polisi yswiriant grybwyll gwirfoddolwyr yn benodol, oherwydd mae'n bosibl na chânt eu cynnwys yn awtomatig. Os oes gwirfoddolwyr iau'n gwirfoddoli yn yr un gweithgareddau â'ch gwirfoddolwyr eraill, fel arfer, ni ddylid bod cost ychwanegol am newid cyfyngiadau oedran eich polisi.



Diogelu

Mae **erthygl 1** o **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant** yn diffinio plentyn fel pob bod dynol o dan ddeunaw mlwydd oed onid, o dan y gyfraith berthnasol i blant, y deuir i oed yn gynharach.

Mae angen diogelu gwirfoddolwyr ifanc tra maen nhw'n gwirfoddoli. Yn yr un modd, mae angen ystyried materion diogelu pan fo'r gwirfoddolwr ifanc ei hun yn gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant eraill. Mae'n arfer da i gael polisi diogelu ar waith pan fyddwch yn cynnwys unrhyw un o dan 18 oed, boed hynny fel gwirfoddolwr neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwasanaeth Diogelu CGGC, sy'n darparu gwybodaeth, cyngor, adnoddau a hyfforddiant i fudiadau trydydd sector

Desg Gymorth: 0300 111 0124

E-bost: safeguarding@wcva.org.uk

Mae'r [Canllaw i ddiogelu gwirfoddolwyr ifanc ar y cyfryngau cymdeithasol](#) yn awgrymu camau ymarferol y gall mudiad eu cymryd i sicrhau defnydd diogel o'r cyfryngau cymdeithasol a'r llwyfannau amrywiol y mae pobl ifanc yn debygol o'u defnyddio.

Nid yw gweithgaredd gwirfoddoli sy'n cynnwys mynediad sylweddol heb oruchwyliaeth at grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant, yn cael ei gynghori i wirfoddolwyr dan 18. Serch hynny, os oes gwirfoddolwr dros 16 yn rhan o weithgareddau o'r fath bydd angen i chi ystyried a ddylent fynd drwy weithdrefnau recriwtio diogel eraill megis gwiriadau'r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau sy'n darparu gwiriadau **DBS** ar gael ar wefan **CGGC**.



I gael rhagor o wybodaeth, gweler y daflen wybodaeth:
4.9 Arferion diogelu a rheoli da

Caniatâd Rhieni

Mae'n arfer da cael caniatâd rhiant/gwarcheidwad ar gyfer unrhyw un dan 18 oed sy'n gwirfoddoli gyda'ch mudiad. Dylid hysbysu'r rhiant o weithgareddau'r mudiad ac o'r hyn y bydd ei blentyn yn ei wneud, pryd ac ymhle.

Wrth ddefnyddio ffotograffau o wirfoddolwyr ifanc at ddibenion cyhoeddusrwydd mae angen i chi gael eu caniatâd ac, os ydynt dan 16, caniatâd rhiant/gwarcheidwad i'w defnyddio.

Os yw'r unigolyn ifanc dros 16 ac yn byw'n annibynnol ar rieni neu'r gwasanaethau cymdeithasol caiff roi ei ganiatâd ei hun.

Gwirfoddolwyr Ifanc a Budd-daliadau

Fel rheol gyffredinol, ni ddylai gwirfoddoli effeithio ar fudd-daliadau cyn belled â'i fod mewn mudiad dielw ac mai dim ond mân dreuliau a gaiff eu had-dalu. Os oes unigolyn ifanc ar lwfans ceisio gwaith rhaid iddo fod ar gael i fynd i gyfweliad ar 48 awr o rybudd ac ymroi i geisio gwaith. Gall y rheini sy'n cael lwfans gofalwyr wirfoddoli cyn belled â'u bod yn dal i allu darparu gofal am o leiaf 35 awr yr wythnos.



Dolen Allanol

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â gwirfoddoli ar gael ar wefan GOV. UK. Mae gwybodaeth am hyn ar gael ar eu gwefan. Mae'r **Adran Gwaith a Phensiynau** wedi cyhoeddi canllawiau ar rai budd-daliadau (Atodiad 5: Diwygio Lles).

[Adran Gwaith a Phensiynau - Diwygio Lles](#)

Syniadau ar gyfer cynnwys pobl ifanc

Nawr eich bod yn deall rhai o'r agweddau mwy technegol ar gynnwys pobl ifanc, efallai'ch bod yn gofyn 'sut allaf fynd ati i ddenu pobl ifanc a'u cynnwys?'

Efallai mai'r peth pwysicaf yw gofyn i bobl ifanc sut yr hoffent gael eu cynnwys. Mae gadael pobl ifanc i ddweud eu dweud yn dangos eich bod yn parchu eu barn a'ch bod am wrando arnynt. Gall eu cynnwys i gydgyhyrchu rolau gwirfoddol, prosiectau neu hyd yn oed y mudiad roi teimlad o berchnogaeth iddynt a chreu cyswllt gwirioneddol ag amcanion eich mudiad, eu rôl a datblygu arferion a dulliau arloesol er budd y bobl rydych yn eu cefnogi a'r gymuned.

Ymysg y ffyrdd y gallwch wneud hyn y mae:

- Yn ystod sgwrs anffurfiol pan maen nhw'n holi ynghylch gwirfoddoli.
- Yn ystod cyfarfod goruchwylio un-wrth-un neu mewn grŵp.
- Ffurio fforwm ieuenctid i alluogi'ch gwirfoddolwyr ifanc i ddod at ei gilydd i ddarparu adborth a chyngor.
- Cynnwys gwirfoddolwyr ifanc mewn cyfarfodydd tîm, neu fel cynghorwyr i'ch bwrdd ymddiriedolwyr.

Os ydych yn awyddus i gynnwys gwirfoddolwyr ifanc ond dim ond rolau gwirfoddoli sy'n addas i rai dros 18 oed sydd gennych ar hyn o bryd, efallai yr hoffech ystyried datblygu cyfleoedd eraill.

Beth am annog grŵp i'ch helpu gydag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth? Gallai hyn fod yn eu hysgol a gyda'u cyfoedion neu yn y gymuned ehangach.

Ydych chi'n cael trafferth cadw i'r funud â'r holl dechnoleg sy'n fythol newid? Ydy'r rhyngwyd yn ymddangos yn rhy ddryslyd i chi? Beth am ofyn i unigolyn ifanc ddangos i chi sut mae'n gweithio neu efallai'ch helpu i hyrwyddo'ch gweithgareddau drwy'r cyfryngau cymdeithasol? Gallent hyd yn oed eich helpu i ddylunio cylchlythyr/gwefan neu system weinyddu i ddal i fyny â'ch holl wirfoddolwyr.

A oes unrhyw weithgareddau grŵp lle gall pobl ifanc helpu, lle byddent yn cael eu goruchwylio'n llawn?

Os bydd unigolyn ifanc yn holi am eich cyfleoedd ond eich bod yn teimlo nad oes gennych ddim byd addas, holwch beth gallant ei wneud neu beth oedd ganddynt mewn golwg. Yn ogystal â brwdfrydedd ac egni, mae gan bobl ifanc lawer o sgiliau a fyddai'n werthfawr i'ch mudiad, weithiau maen nhw'n anghofio crybwyll y rhain.

Sut mae recriwtio gwirfoddolwyr ifanc

Felly, ymhle y gallwch ddod o hyd i'r bobl ifanc alluog, ymroddedig hyn? Yr ateb syml yw – ym mhobman. Dyma ond ychydig esiamplau o ffyrdd o ddod o hyd i wirfoddolwyr ifanc:

Defnyddiwch eich canolfan wirfoddoli leol:

Dylech fynd at **Gynghorwyr Gwirfoddoli Ieunctorid (YVA's)** yn gyntaf. Mae 22 YVA rhan-amser yng Nghymru. Eu nod yw helpu mudiadau i ddatblygu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli o safon i bobl ifanc a recriwtio a lleoli pobl ifanc yn y cyfleoedd hyn. Gall eich YVA hyrwyddo'ch cyfleoedd gwirfoddoli drwy'r gronfa ddata genedlaethol, [Gwirfoddoli Cymru](#) sydd ar gael i unrhyw un yng Nghymru



Gwybodaeth

Mae manylion cyswllt eich YVA lleol yma
[CGGC - Gwirfoddoli Ieunctorid](#)

Mudiadau sydd eisoes yn cynnwys pobl ifanc:

Cysylltwch â mudiadau sydd eisoes yn cynnwys pobl ifanc. Ysgolion, colegau, prifysgolion, clybiau ieunctorid, yr Urdd, unedau Sgowtiaid a Geidiau, rhwydweithiau ieunctorid, canolfannau gwaith, gwasanaethau troseddwr ifanc, gwasanaethau cymdeithasol a llawer mwy.

Holwch a gewch sgwrsio â'r bobl ifanc am eich cyfleoedd, ewch â'r holl wybodaeth berthnasol a pheynnau ymgeisio gyda chi i'w dosbarthu iddynt.

A ydych chi'n gwybod am sefydliadau addysg a all gynnig cyrsiau sy'n arbennig o berthnasol i'ch rolau, lle gall pobl ifanc ennill profiad ymarferol o'r sector iechyd er enghraifft, neu weithio gyda phlant?

Arddangosfeydd:

Gall arddangosfeydd a digwyddiadau fel ffeiriau'r glas a digwyddiadau gyrfaoedd fod yn gyfleoedd recriwtio defnyddiol.

Deunydd cyhoeddusrwydd presennol:

Ystyriwch eich deunydd cyhoeddusrwydd presennol. A yw eich taflenni'n apelio at bobl ifanc? A yw eich gweithgareddau wedi'u hanelu at wirfoddolwyr hŷn? A ydych chi mewn unrhyw fodd yn dweud neu'n datgan eich bod yn chwilio am wirfoddolwyr ifanc?

Bydd pobl ifanc yn aml yn tybio nad yw eich gweithgareddau wedi'u bwriadu ar eu cyfer nhw oni bai eich bod yn dweud fel arall. Felly dywedwch wrth bobl ifanc am yr hyn rydych yn ei wneud, dywedwch beth yw eich oedran isaf ar gyfer gwirfoddolwyr gan dynnu sylw at fanteision y cyfle dan sylw, a fydd yn apelio at bobl ifanc.

Sicrhau bod pobl ifanc yn deall y rôl ac yn gallu ymrwymo

Un myth cyffredin yw bod pob unigolyn ifanc yn annibynadwy ac yn anaeddfed. Pobl yw pobl ifanc ac fel pawb arall, nid oes dau'r un fath. Os nad ydych yn sicr yn y cyfweiliad a ydynt yn deall y rôl, beth am i chi eu gwahodd i hyfforddiant a rhoi cyfle iddynt ddysgu rhagor a dangos yr hyn y maen nhw'n ei ddeall? Allech chi gynnig diwrnod blasu fel y gallent ddod i mewn i'r swyddfa neu gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp er mwyn gweld ai hon yw'r rôl iawn iddyn nhw?

Bydd angen i chi ystyried pwysau gwaith ysgol, swyddi ac amser cymdeithasol. Gellir trafod hyn yn ystod y cyfweiliad cychwynnol neu hyd yn oed ar ôl yr hyfforddiant fel y gall y darpar wirfoddolwr gael syniad o'r ymrwymiad yr ydych yn chwilio amdano a phenderfynu a fydd yn gallu rhoi hynny.

Cadw Pobl Ifanc fel Gwirfoddolwyr

Sut gallwch chi ddangos i'ch gwirfoddolwyr ifanc eich bod wedi ymrwymo iddynt a'u hannog i barhau i wirfoddoli gyda chi?

Yn gyntaf, ystyriwch pam maen nhw'n gwirfoddoli;

- Ai er mwyn cael sgiliau newydd?
- Gwneud ffrindiau?
- Ychwanegu at eu CV?
- Rhoi rhywbeth yn ôl a theimlo'u bod yn gwneud gwahaniaeth?

Allwch chi helpu i fodloni'r anghenion hyn drwy gynnig hyfforddiant a'r cyfle i ddatblygu eu rolau neu greu rhai newydd? Os na chaiff yr hyfforddiant ei achredu'n allanol gallech ei achredu'n fewnol drwy osod nifer o safonau a chanlyniadau i'r person ifanc eu cyflawni.

Mae digwyddiadau cymdeithasol yn helpu gwirfoddolwyr ifanc i ymgartrefu, cwrdd ag eraill a chreu rhwydwaith cymdeithasol. Mae cynnig geirdaon, os yn briodol, yn dangos eich bod hefyd yn ymroddedig i'w helpu i hybu eu gyrfa neu eu haddysg.

Mae'r ffordd y mae pobl yn gwirfoddoli, yn enwedig pobl ifanc, wedi newid. Mae'n dod yn fwyfwy arferol i unigolion wirfoddoli ar arddull tebycach i 'bortffolio', gan ddewis mathau o wirfoddoli, neu brosiectau penodol sy'n galluogi gwirfoddolwyr i gael profiadau penodol neu i ddangos eu gallu. Gall pecynnu eich gofynion gwirfoddoli yn 'brosiectau' llai fod yn fwy deniadol i rai unigolion sy'n gwirfoddoli. Gallai hyn fod yn berthnasol i fyfyrwyr sydd eisiau gwirfoddoli er mwyn ategu cwrs, cyflogeion sy'n chwilio am ymyrraeth tymor byr er mwyn cynorthwyo mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr neu rywun ar flwyddyn i ffwrdd neu gyfnod sabothol sydd eisiau cael profiadau amrywiol.

System rheoli gwirfoddolwyr

Mae CGGC, ynghyd â'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs), wedi datblygu [platfform digidol newydd ar gyfer gwirfoddoli](#) sy'n galluogi gwirfoddolwyr o bob oed, gan gynnwys pobl ifanc, i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli yn eu hardal, cysylltu'n gyflym â darpar fudiadau, cofnodi eu horiau gwirfoddoli, ennill bathodynau digidol a lawrlwytho tystysgrifau. Gellir defnyddio'r platfform ar ddyfeisiau clyfar.

Cydnabod llwyddiannau gwirfoddolwyr ifanc

Mae cydnabod llwyddiannau gwirfoddolwyr ifanc yn ffordd wych o ddangos eich bod yn eu gwerthfawrogi a dathlu eu llwyddiant. Mae system digidol newydd i gofnodi nifer yr oriau gwirfoddoli, waeth faint yw eich oed, yn nodi cerrig milltir penodol (50, 100, 200, 500 a 1000 awr).

Wrth gyflawni'r oriau hyn, gwobrwyir bathodynau digidol. Gall y gwirfoddolwyr a'r mudiad(au) y maen nhw'n gwirfoddoli o'i fewn / o'u mewn lawrlwytho tystysgrifau cyflawniad. Mae angen i bobl ifanc [gofrestru](#) ac yna gallant ddechrau cofnodi eu horiau gwirfoddoli ar unwaith. Fel mudiad, mae angen i chi sicrhau ei fod wedi'i gofrestru ar y system i alluogi gwirfoddolwyr i ddechrau cofnodi eu horiau.

Modiwl E-Ddysgu

Mae Modiwl E-Ddysgu 'Cynnwys pobl ifanc mewn gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol' ar gael ar ôl cofrestru ar [Hafan Dysgu CGGC](#). Anelir y modiwl at fudiadau sydd am gynnwys pobl ifanc a'u hannog i wirfoddoli. Er ei fod yn canolbwyntio ar bobl ifanc, mae'r Modiwl yn berthnasol i bob oed ac yn amlinellu'r arfer gorau ym maes gwirfoddoli.

Yn olaf, cofiwch roi gwybod i bobl ifanc eich bod chi ac unrhyw fuddiolwyr yn wirioneddol yn gwerthfawrogi eu bod yn rhoi o'u hamser. Gall gweld y gwahaniaeth a wnânt a gwybod y caiff ei werthfawrogi helpu pobl ifanc i ddod yn fwy hyderus, eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb drosti. Gall dangos gwerthfawrogiad fod yn rhywbeth mor syml â dweud diolch, rhoi cerdyn neu dystysgrif, neu mor uchelgeisiol â chynnal seremoni wobrwyo i ddathlu cyfraniadau gwirfoddolwyr.

Deunydd darllen ac adnoddau eraill

Gwybodaeth a chyngor cyffredinol ynghylch cynnwys gwirfoddolwyr ifanc

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant NSPCC

www.nspcc.org.uk

Canllawiau ar Fuddiolwyr Agored i Niwed, gan gynnwys Plant

Y Comisiwn Elusennau

<https://www.gov.uk/government/collections/regulatory-work-charity-commission>

Diogel rhag Niwed: Diogelu Plant mewn Mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol yng Nghymru (Saesneg yn unig) Llywodraeth Cymru

www.scin.org.uk/fileadmin/documents/safeguarding_children_in_voluntary_and_community_organisations.pdf

Pobl Ifanc mewn Gwaith (Saesneg yn unig)

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

www.hse.gov.uk/youngpeople/law/index.htm

Agored Cymru (ar gyfer achredu cyrsiau)

Agored Cymru

<https://www.agored.cymru/>

Gwobrau cyflawniad ieuencid

Youth Cymru

<https://youthcymru.org.uk/>

NCVO

NCVO

<https://www.ncvo.org.uk/>



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.